

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol /
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AG/AWL/SB

26 Chwefror 2018

Annwyl Mr Ramsay

Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

Ymhellach i'ch llythyr dyddiedig 30 Ionawr 2018, yn dilyn fy llythyr cynharach dyddiedig 22 Rhagfyr 2017, gweler yr ymateb isod i'r materion a godwyd:

- Adolygiad yn Seiliedig ar Sero

Nododd BIP Hywel Dda fod y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd BIP Hywel Dda wedi'u trefnu ar hyn o bryd yn llyffethair strwythurol a oedd yn cyfyngu ar ei allu i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig cynaliadwy, cytbwys y gellir ei gymeradwyo. Fel rhan o'r trefniadau Ymyriadau wedi'u Targedu, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad i asesu'n annibynnol gostau "gormodol" y ffordd yr oedd gwasanaethau gofal iechyd BIP Hywel Dda wedi'u trefnu yn erbyn cymharydd priodol. Comisiynwyd yr adolygiad i fynd i'r afael â mater penodol a godwyd gan Hywel Dda ac nid oes bwriad i gynnal adolygiadau tebyg mewn byrddau iechyd eraill, er bod gwersi i'w dysgu o'r broses, yn enwedig o ran proffiliau demograffig, megis dosbarthiad oedran, rhywedd ac amddifadedd wrth inni barhau i ddatblygu fformiwla dyrannu ar gyfer y dyfodol.

- Adolygiadau Llywodraethu Ariannol

Cynhaliwyd pedwar Adolygiad Llywodraethu Ariannol yn y byrddau iechyd a oedd yn destun Ymyriadau wedi'u Targedu neu Fesurau Arbennig. Rhannwyd yr adroddiadau llawn gyda'r Byrddau priodol ac, yn dilyn adolygiad manwl gan eu Pwyllgorau priodol, mae'r argymhellion a'r cynlluniau gweithredu wedi eu cytuno gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

Er bod canfyddiadau pob adolygiad yn unigryw, ceir rhai themâu cyffredin yn yr adroddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr angen am ddull mwy soffistigedig o gynllunio ariannol gyda mwy o fanylion o ran y rhagdybiaethau
- Dylai trawsnewid gwasanaethau fod wrth wraidd cynllunio ariannol, gyda dull mwy strategol o gyflawni arbedion effeithlonrwydd
- Yr angen am strategaeth drosfwaol sy'n dwyn ynghyd strategaeth glinigol, Cynllun Tymor Canolog Integredig, cynllun ariannol, arbedion effeithlonrwydd a mentrau strategol eraill
- Swyddfa Rheoli Rhaglenni -
 - yr angen i adolygu a diffinio galluedd, capasiti a ffocws
 - angen cymryd rôl fwy canolog wrth lunio a chyflawni'r broses o drawsnewid gwasanaeth
- Angen diffinio ffocws adran gyllid fodern i gynorthwyo gyda llunio rhaglen ddatblygu ffurfiol i gefnogi moderneiddio
- Dylai sefydliadau fod yn cynllunio i fantoli'r gyllideb o leiaf.
- Mae angen cryfhau'r prosesau adrodd ariannol
- Dylid cynnal adolygiad manwl a thrylwyr o gyllid ar lefel pwyllgor a dylai prosesau craffu'r Byrddau fod yn fwy manwl
- Mae angen arallgyfeirio a datblygu sgiliau aelodau annibynnol a gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn gweithio yn y maes cyllid
- Mae angen diffinio'n gliriach y paramedrau y mae timau gweithredol gwasanaethau yn gweithio o'u mewn
- Mae angen sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran rheoli perfformiad rhwng dwyn timau gweithredol i gyfrif a'u cefnogi
- Mae angen buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu arweinyddiaeth, yn enwedig fel offeryn i wella ymgysylltiad meddygol
- Mae angen i dimau arweinyddiaeth weithredol gael gwybodaeth fwy craff am berfformiad er mwyn gweithredu adrannau, cyfarwyddiaethau ac unedau yn effeithiol.
- Mae'r adolygiadau hyn yn gweithredu fel pwynt cyfeirio lleol i'r Bwrdd mewn perthynas â gwella

Y tu hwnt i'r adroddiadau lleol, mae'r canfyddiadau a'r gwersi cyffredinol wedi cael eu rhannu gan Deloitte drwy GIG Cymru drwy weithdai a drefnwyd ar gyfer:

- Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr
- Cyfarwyddwyr Cyllid a'u huwch dimau cyllid

- Arbedion Effeithlonrwydd y GIG

Fel y manylir yn yr ymateb i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, mae dull Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru yn canolbwyntio ar ledaenu arferion da, ac mae hefyd yn bwrw ymlaen â mentrau penodol megis datblygu Fframwaith Effeithlonrwydd ar gyfer GIG Cymru, rheoli meddyginiaethau, amrywiad clinigol, ac i ategu a chefnogi rhaglenni effeithlonrwydd lleol. Mae'r gwaith diweddar a gyflwynwyd yn y Grŵp yn cynnwys

- Atlas Amrywiad - datblygu rhaglen o atlasau o amrywiad clinigol i alluogi clinigwyr i ddeall a herio amrywiad di-alw-amdano ac i newid diwylliant ac ymddygiad clinigwyr
- Rhaglen Enghreifftiau o Arloeswyr Bevan - sut i ddileu a systemoli manteision prosiectau enghreifftiol llwyddiannus ar draws GIG Cymru.
- Caffael Prosthesis Cluniau - dull caffael darbodus ar gyfer cluniau newydd i'r GIG yng Nghymru drwy weithredu argymhellion i safoni'r defnydd o brosthesis cluniau
- Gwaith Canolfan Arloesi Clwyfau Cymru i gefnogi proses gaffael sy'n seiliedig ar werth mewn perthynas â contract Rheoli Gwelyau i GIG Cymru.

Mae'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad Seneddol diweddar ac, mewn ymateb i hynny, mae'n datblygu cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y pwyntiau a godwyd ynglŷn ag effeithlonrwydd, cydgysylltu ag ymdrechion cenedlaethol eraill a rhaglen gyffredinol yn cael eu hystyried yn yr ymateb hwn.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall